

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Dyddiad yr Adroddiad: 01 Awst 2025

Yn dilyn y Datganiad Sefyllfa a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r ddogfen hon, mae Pwyllgor Optometrig Cymru wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth gwasanaethau lensys cyffwrdd arbenigol a gynigir yng Nghymru, gan nodi gwahaniaethau sylweddol, a chynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan unedig.

Mae Pwyllgor Optometrig Cymru yn teimlo bod yr awgrymiadau a amlinellir yn y papur hwn yn cynnig gwasanaeth cadarn a chynhwysfawr, gan ddod â gwerth i gleifion ac ymarferwyr ledled y wlad.

Hoffai Pwyllgor Optometrig Cymru ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor a gyfrannodd at y gwaith hwn ers ei sefydlu, yn enwedig Fran Lado, Optometrydd, CVUHB, a Keith Williams, Optegydd Lensys Cyffwrdd Ysbyty, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	3-5
Darpariaeth Gwasanaethau Presennol ar draws y saith bwrdd iechyd	6-16
Crynodeb o'r Canfyddiadau	17-18
Arfarniad o Opsiynau	19-23
Argymhelliad gan Bwyllgor Optometrig Cymru i Lywodraeth Cymru	24-28
Atodiad 1 - Mae Adran Iechyd y DU (2006) yn nodi argymhellion ar gyfer darparu lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol yn glinigol	29
Atodiad 2 - Cyngor gan Gymdeithas yr Optometryddion ynghylch Lensys Cyffwrdd sy'n Angenrheidiol yn Glinigol	30-31
Atodiad 3 - Ystyriaethau Offer	32
Atodiad 4 – Crynodeb manwl o'r gofynion llwybr, talu ac offer ar gyfer Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru (WCLS) Lefelau 1-3	33-36

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

Atodiad 5 – Hyfforddiant	37
Atodiad 6 - Opsiynau ar gyfer Caffael Lensys Cyffwrdd	38
Cyfeiriadau	39-40

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

Cyflwyniad:

Cwmpas yr Adolygiad: Mae Pwyllgor Optometrig Cymru wedi adolygu arfarniad o 2019 yn trafod annhegwch wrth asesu, gosod a chyflenwi lensys cyffwrdd arbenigol yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer cleifion â chyflyrau ociwlar cymhleth fel ectasia ar y gornbilen ac anffurfio ociwlar.

- **Materion Cefndir:** Mae clinigwyr, cleifion a rheolwyr byrddau iechyd wedi codi pryderon am y diffyg gwasanaethau safonol ar gyfer lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol yn glinigol yng Nghymru.
- **Darpariaeth Gwasanaeth Presennol:** Darperir gwasanaethau lensys cyffwrdd yng Nghymru yn bennaf mewn gofal eilaidd, gydag amrywiadau rhanbarthol sylweddol yn y ddarpariaeth gwasanaethau, gan arwain at annhegwch mewn mynediad a chostau i gleifion.

Mae diffyg rheolaeth a safoni clir ar draws ardaloedd, gyda chleifion yn wynebu costau annisgwyl ac amrywiadau yn y ddarpariaeth gwasanaeth, gan waethygu annhegwch mewn gofal lensys cyffwrdd.

Mae canfyddiadau Pwyllgor Optometrig Cymru yn tynnu sylw at amrywiadau sylweddol yn y ddarpariaeth gwasanaeth lensys cyffwrdd ar draws gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru, gyda rhai ardaloedd heb unrhyw wasanaeth o gwbl.

- **Gwasanaeth Unedig Arfaethedig:** Mae Pwyllgor Optometrig Cymru yn cynnig Gwasanaeth Lens Gyffwrdd Cymru Gyfan safonol a ddarperir drwy gydweithrediad rhwng ymarferwyr gofal sylfaenol ac eilaidd i wella capasiti mewn gofal eilaidd a galluogi optometryddion ac optegwyr lensys cyffwrdd lleol i ddarparu gofal, gan gyd-fynd â chynllun iechyd hirdymor Llywodraeth Cymru. Bydd angen gwaith pennu cwmpas pellach gan AaGIC ynghylch gofynion hyfforddi ar gyfer ymarferwyr. Ar ôl ei fabwysiadu, gellid ymgorffori Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan yn hawdd yng Ngwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru yn dilyn trafodaethau tair rhan rhwng GIG Cymru, Llywodraeth Cymru ac Optometreg Cymru.
- **Mae Pwyllgor Optometrig Cymru yn cydnabod y bydd heriau gweithredu sylweddol ynghylch unrhyw newid cytundebol neu ddarpariaeth gwasanaeth newydd.** Bydd angen hyfforddiant penodol ar bob aelod o staff

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

gofal sylfaenol ac eilaidd (mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid eraill, fel Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC)) ac offer i ddarparu unrhyw wasanaethau arfaethedig, gydag opsiynau ar gyfer caffael canolog i sicrhau cost-effeithiolrwydd a safoni. Fodd bynnag, mae gan ymarferwyr sy'n gallu gweithio o fewn cynlluniau gwell amrywiaeth ehangach o gyfleoedd a gallant gael mwy o ymdeimlad o foddhad o'u rolau, sef ystyriaeth bwysig ar gyfer cynllunio a sefydlogrwydd y gweithlu.



Cefndir:

Mae materion wedi cael eu codi yn y gorffennol gan glinigwyr, y sector gwirfoddol, rheolwyr byrddau iechyd, a chleifion sy'n dangos nad oes gwasanaeth safonol i ddarparu lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol yn glinigol ar gyfer cyflyrau ociwlar cymhleth fel ectasia ar y gornbilen, graddau uchel o ametropia, anghenion therapiwtig a phrosthetig. Felly, nid yw llawer o gleifion y mae angen lensys cyffwrdd arbenigol arnynt yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau angenrheidiol.

Mae yna hefyd sawl cyflwr ar y gornbilen sydd angen eu monitro mewn gofal eilaidd ac weithiau gall fod angen ymyrraeth, fel grafftiaid ar y gornbilen a chroesgysylltu collagen ar y gornbilen (CXL). Gall monitro'r cyflyrau hyn gymryd capasiti gofal eilaidd sylweddol.

Mae angen lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol yn glinigol neu arbenigol pan na ellir cael golwg arferol gan ddefnyddio sbectol (e.e., ectasia fel ceratoconws, dirywiad ymylol tryloyw, grafftiaid ôl-gornbilen (nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr)), neu pan fydd angen amddiffyn y llygad ar ôl anaf, ac at ddibenion prosthetig a chosmetig. Mae lensys cyffwrdd arbenigol yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir i ddarparu cywiriad golwg amgen. Gellir dod o hyd i'r rhesymeg dros ei gwneud yn ofynnol cael lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol yn glinigol yn Atodiad 1 a 2.

Mae ceratoconws yn glefyd sy'n effeithio ar y gornbilen, gan arwain at deneuo, creithiau ac ystumio'r gornbilen yn raddol. Mae'n cyfrif am gyfran fawr o'r galw am lensys cyffwrdd arbenigol. Wrth i'r clefyd fynd rhagddo, efallai na fydd modd cael golwg normal gyda sbectol. Mae lensys cyffwrdd arbenigol, lensys anhyblyg fel arfer, yn darparu arwyneb optegol llyfn ac felly gellir cael 'golwg normal' (a ystyrir yn well na 6/12 Snellen neu 0.3 LogMAR) fel arfer. Adroddir bod rhwng 74% a 90% o geratoconeg yn dibynnu ar lensys cyffwrdd ar gyfer cywiro golwg (Rabinowitz et al, 1998; Lass et al, 1990). Mae'r cyflwr hwn fel arfer yn effeithio ar bobl yn eu harddegau ac i fyny a gall ddatblygu'n gyflym ac mae angen i rai cleifion gael grafftiaid ar y gornbilen i gyflawni craffter golwg digonol (Mohammadpour M, et al 2017). Hyd yn oed ar ôl grafftiaid ar y gornbilen, efallai y bydd angen lensys cyffwrdd arbenigol o hyd. Mae sawl math o lensys cyffwrdd arbenigol ar gael yn dibynnu ar gam clefyd y gornbilen.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Mae cyffredinrwydd ceratoconws yn amrywio o tua 54.4 fesul 100,000 o bobl (Rabinowitz et al, 1998) i 265 o achosion fesul 100,000 (Godefrooij et al, 2017). Byddai hynny'n arwain at amcangyfrifon o rhwng 2,000-8,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda ceratoconws. Mae'n anodd meintioli cyffredinrwydd cyflyrau eraill sy'n gofyn am lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol yn glinigol.


Mae croesgysylltu'r gornbilen (CXL) yn driniaeth sy'n cryfhau'r gornbilen ac yn helpu i atal neu arafu datblygiad ceratoconws. Gall croesgysylltu'r gornbilen helpu i atal yr angen am drawsblaniad cornbilen (Godefrooij, DA et al 2016). Mae'r llawdriniaeth hon wedi dod ar gael yn ddiweddar mewn rhai ardaloedd yng Nghymru ac o ganlyniad, disgwylir mwy o atgyfeiriadau i Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai gan optometryddion a allai fod wedi rheoli'r cyflwr hwn yn eu practis yn flaenorol. Bydd mwy o alw yn cael ei roi ar ofal eilaidd gan fod angen mwy o apwyntiadau ar gyfer cleifion croesgysylltu'r gornbilen gan gynnwys ymgynghoriadau, yn ogystal â llawdriniaeth CXL ac apwyntiadau dilynol yn flynyddol. Mae cleifion fel arfer yn dal i fod angen lensys cyffwrdd ar ôl llawdriniaeth CXL (Mandathara PS et al., 2019), ac felly efallai y byddai'n berthnasol tybio y gellid cynnal apwyntiad dilynol ôl-lawdriniaeth gan optometryddion gofal sylfaenol ac optegwyr lensys cyffwrdd mewn ymarfer cymunedol.

At hynny, mae amrywiaeth o gyflyrau'r gornbilen sydd ar hyn o bryd yn gofyn am apwyntiadau gofal eilaidd er mwyn monitro cynnydd unwaith y byddant yn sefydlog, er enghraifft Nychdod Fuch yn dilyn grafftiad cornbilen.

Mae cadw cleifion yn nes at y cartref yn un o ddyheadau allweddol 'Cymru iachach' (Government, A Healthier Wales, 2022). Gallai cyflwyno Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan wella capasiti mewn gofal eilaidd a galluogi cleifion i gael eu gweld gan optometryddion ac optegwyr lensys cyffwrdd yn lleol.

Dadansoddiad:

Gwasanaethau presennol mewn gofal sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru



Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

Fel yr amlinellwyd uchod, mae mwyafrif y gwasanaethau lensys cyffwrdd arbenigol yng Nghymru yn digwydd mewn gofal eilaidd, ar ôl cael eu hatgyfeirio o wasanaethau optometreg gofal sylfaenol i ofal eilaidd ar gyfer diagnosis cychwynnol gan ymgynghorydd cornbilen, sydd wedyn yn atgyfeirio i ymarferydd lens cyffwrdd gofal eilaidd. Mewn rhai byrddau ieuchyd, mae cleifion lensys cyffwrdd arbenigol yn cael eu gweld gan ymarferwyr mewn gofal sylfaenol sydd â diddordeb mewn lensys cyffwrdd arbenigol, yn dilyn atgyfeiriad gan wasanaeth llygaid mewn ysbyty.

Mae nifer sylweddol o gleifion sydd â hawl i lensys cyffwrdd y GIG ond ar hyn o bryd maent yn cael eu rheoli gan optometryddion ac optegwyr lensys cyffwrdd sydd â'r profiad priodol, drwy drefniadau preifat. Disgwylir y bydd cyflwyno Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan posibl yn debygol iawn o ddenu'r cleifion hyn, gyda chynnydd yn y niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r grwpiau o gleifion y gellir disgwyl iddynt fynd i wasanaeth lensys cyffwrdd arbenigol.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Y sefyllfa bresennol ar draws y byrddau iechyd:

- Nid yw cleifion yn gallu cael mynediad at wasanaethau lensys cyffwrdd arbenigol gofal eilaidd mewn ffordd deg a chyfartal.
- Nid oes rheolaeth glir o'r gwasanaethau hyn ar draws ardaloedd.
- Mae annhegwch o ran darpariaeth lensys cyffwrdd a gofal lensys cyffwrdd.
- Mae amrywiad mewn gwariant ar dalebau ar draws ysbytai, hyd yn oed o fewn byrddau iechyd unigol.
- Mae cleifion yn aml yn wynebu biliau annisgwyl ac amrywiol mewn gofal sylfaenol pan fyddant yn cael eu rhyddhau o wasanaeth llygaid mewn ysbyty gyda thaleb ysbyty 12.
- Mae llawer o offthalmolegwyr ymgynghorol nad ydynt yn ymwybodol o ddarpariaeth gwasanaethau lleol mewn gofal sylfaenol ac nid yw cleifion yn cael y gofal y mae ganddynt hawl iddo.
- Nid yw ymarferwyr mewn gofal sylfaenol yn gwybod pa ymarferwyr lleol sy'n darparu gwasanaethau lensys cyffwrdd arbenigol ar hyn o bryd a pha wasanaeth lensys cyffwrdd arbenigol sy'n cael ei ddarparu gan ysbytai lleol.
- Mae ansicrwydd ymhlith rhai ymarferwyr a'r Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty ynghylch defnyddio Talebau Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty ar gyfer lensys cyffwrdd. Mae GIG Cymru yn awgrymu y dylai cleifion dalu gwerth Taleb 12 fesul lens (NWSSP NHS Wales, 2021), sydd wedi aros yn ddigyfnewid ers 2021. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei weithredu'n gyson ym mhob rhanbarth.
- Mewn rhai ardaloedd, nid yw cleifion yn cael y lensys sydd eu hangen arnynt, naill ai oherwydd rhwystrau cost neu ddiffyg darpariaeth gwasanaeth.
- Byddai optometreg gofal sylfaenol sy'n darparu mwy o wasanaethau lens cyffwrdd yn lleihau'r galw mewn gofal eilaidd ac yn dod â gofal yn nes at y cartref. Mae hyn yn cefnogi cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru (A Healthier Wales, 2022).
- Ar ôl gweithredu diwygio contractau optometreg GIG Cymru a Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru, mae mwy o optometryddion ac optegwyr

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

lensys cyffwrdd sydd â chymwysterau a phrofiad arbenigol yn gallu monitro amrywiaeth ehangach o gyflyrau a darparu gofal yn nes at y cartref.

O ran gosod lensys cyffwrdd arbenigol, mae dull amrywiol ym mhob ardal bwrdd iechyd:

- Gwasanaeth ysbyty yn unig
- Gwasanaeth gofal a rennir rhwng Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty a phractisau gofal sylfaenol achrededig
- Contractau ymarferydd gofal sylfaenol gyda Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty
- Dim darpariaeth gwasanaeth o gwbl

Ers mis Hydref 2023 mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno diwygio contractau optometrig Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru. Mae'r diwygiadau'n cysoni optometreg yng Nghymru â fferylliaeth a deintyddiaeth, gan alluogi ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i gael y set sgiliau i wneud diagnosis, trin a rheoli mwy o gleifion mewn lleoliad gofal sylfaenol. Mae hyn yn ei dro yn gwella mynediad cleifion at ofal yn nes at y cartref ac yn lleihau'r baich ar wasanaethau llygaid mewn ysbytai sydd dan bwysau.

Gan fod gosod lensys cyffwrdd yn gymhwysedd craidd i optometryddion ac optegwyr lensys cyffwrdd, dylid ystyried gwasanaeth lens cyffwrdd unedig Cymru Gyfan fel ymateb perthnasol i ddiwygio contractau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cydweithredol i gasglu data sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth gwasanaethau rhanbarthol bresennol ac ymchwilio i atebion i'r gwahaniaethau yn y ddarpariaeth o wasanaethau ledled Cymru, er mwyn creu gwasanaeth unedig Cymru Gyfan sy'n deg ac yn gyfartal i gleifion, Byrddau Iechyd a GIG Cymru fel ei gilydd.

Darpariaeth Gwasanaeth Presennol:

Yn ddaearyddol, mae GIG Cymru yn defnyddio saith bwrdd iechyd (Ffigurau 1 a 2) sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl anghenion gofal iechyd i drigolion yn eu

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

rhanbarth, gan gynnwys lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd ar gyfer ymarferwyr offthalmolegol ac optometrig.

Dangosir amrywiadau rhanbarthol yn y ddarpariaeth gwasanaeth lensys cyffwrdd yn Ffigur 3 a thrafodir crynodeb o ganfyddiadau Pwyllgor Optometrig Cymru ar gyfer pob bwrdd iechyd rhanbarthol isod.



Ffigur 1. Map Bwrdd Iechyd drwy garedigrwydd Cymdeithas Orthopedig Cymru

Gogledd Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Canolbarth Cymru	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Gorllewin Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
De Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gynt. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
De-ddwyrain Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ffigur 2. Byrddau Iechyd yn seiliedig ar ranbarth.

Rhanbarth	Bwrdd Iechyd	Gwasanaeth Ysbyty yn Unig	Ysbyty a Gofal a Rennir	Contract Gofal Sylfaenol gyda'r Ysbyty	Dim Darpariaeth Gwasanaeth
Gogledd Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr		X		
Canolbarth Cymru	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys				X
Gorllewin Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda		X		
De Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe			X	
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	X			
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro				X
De-ddwyrain Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	X			



Ffigur 3. Darpariaeth gwasanaeth lensys cyffwrdd yn ôl rhanbarth.

Gogledd Cymru (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)

Cofnodir bod gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** boblogaeth o 688,201 (StatsWales, 2022), a dyma'r bwrdd iechyd mwyaf yng Nghymru. Mae ganddo'r gwasanaeth lensys cyffwrdd mwyaf aeddfed a chyson yng Nghymru, gyda llwyddiant blaenorol gyda gwasanaeth lensys cyffwrdd yn yr ysbyty yn gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr gofal sylfaenol sy'n cynnig gofal a rennir i gleifion lensys cyffwrdd. Mae'r broses wedi'i chynnwys yn fanwl yn yr adroddiad hwn.

Mae dwy adran llygaid offthalmoleg ysbyty yng Ngogledd Cymru sy'n cynnig gosod lensys cyffwrdd ar gyfer 9 sesiwn dros 5 diwrnod yr wythnos, sef Uned Llygaid Stanley sydd wedi'i lleoli'n ganolog yn Ysbyty Abergele ac Ysbyty Maelor Wrecsam yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Ar hyn o bryd mae 21 o bractisau gofal a rennir (BCUHB Contact Lens Department, 2024) yn gweithio ar y cyd ag adran lensys cyffwrdd yr ysbytai.

Mae pob atgyfeiriad newydd ar gyfer gosodiadau cymhleth, boed hynny gan bractisau gofal sylfaenol neu offthalmolegwyr ymgynghorol, yn cael eu cynnal gan yr ymarferydd lensys cyffwrdd arweiniol yn Ysbyty Abergele.

Unwaith y bydd atgyfeiriad claf yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer lensys cyffwrdd lefel Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty, mae cleifion yn cael eu bwcio ar gyfer eu tri apwyntiad cyntaf, un mis ar wahân:


1. Apwyntiad 1 - Asesiad cychwynnol ar gyfer addasrwydd lensys cyffwrdd
2. Apwyntiad 2 - Casglu lensys cyffwrdd gyda chyfarwyddyd trin
3. Apwyntiad 3 – apwyntiad dilynol ar ôl 1 mis er mwyn asesu cydweddoldeb y lensys cyffwrdd.

Unwaith y bydd y gosod yn cael ei ystyried yn llwyddiannus ac yn dibynnu ar y cymhlethdod a/neu'r math o lens sydd wedi'i osod, bydd y cleifion yn parhau i dderbyn lensys cyffwrdd ac yn dilyn ôl-ofal naill ai'n uniongyrchol o Ysbyty Abergele neu Ysbyty Maelor Wrecsam. Ar gyfer cleifion ag anghenion llai cymhleth, bydd clinigydd yr ysbyty yn atgyfeirio i ymarferydd gofal a rennir ar gyfer apwyntiad dilynol (Ffigur 4); Mae'r claf yn parhau i fod o dan ofal

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty ac felly mae'r cyflenwad o lensys yn cael ei archebu'n uniongyrchol gan dîm gweinyddol yr ysbyty.



Ffigur 4. Gwasanaeth lensys cyffwrdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r tabl isod yn dangos meini prawf cymhwysedd Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer gosod lensys cyffwrdd (Ffigur 5) ac mae'n dilyn cyngor gan Gymdeithas yr Optometryddion (Atodiad 2). Gan nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr o bosibl, efallai y bydd achlysuron lle mae anghenion claf yn gofyn am osod lensys cyffwrdd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn. Mewn achosion o'r fath, byddai angen cymeradwyaeth ymgynghorydd.

Cymhwysedd Lensys Cyffwrdd Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
Afreoleidd-dra Cornbilen	Albinedd, aniridia, coloboma, ptosis
Myopia yn fwy na -15.00D	Cymwysiadau therapiwtig
Hiolwg sy'n fwy na +10.00D	Anffurfio cosmetig ociwlar
Anisometropia o 5.00D neu fwy	Cyflyrau wyneb neu ddermatolegol
Astigmatedd o 5.00D neu fwy	Cymeradwyaeth arall gan ymgynghorydd

Ffigur 5. Cymhwysedd Lensys Cyffwrdd Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu gosod am ddim i gleifion. Mae'r lensys a gynnigir yn cynnwys RGP cymhleth, meddal arbenigol gan gynnwys prosthetig, lled-sgleral a sgleral llawn gan gynnwys lensys argraff os oes angen. Mae'r adran hefyd yn cynnal apwyntiadau cydweithredol gyda'r gwasanaeth llygaid artiffisial.

Codir tâl am gyflenwad lensys cyffwrdd (o 2024 ymlaen) ar £58.15 y llygad, y flwyddyn ac eithrio lensys dim pŵer sydd am ddim, ac mae hyn yn cynnwys unrhyw ailosod neu newidiadau presgripsiwn. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys lensys ychwanegol sydd eu hangen oherwydd colli neu ddifrod. Darperir cyflenwad cychwynnol o doddiant/doddiannau am ddim ac adolygu hyn ar sail anghenion unigol.

Ar hyn o bryd mae 668 o gleifion gweithredol yn derbyn gofal lensys cyffwrdd, sy'n cyfateb i 0.097% o'r boblogaeth; 602 o adran lensys cyffwrdd yr ysbyty a'r

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



66 o gleifion sy'n weddill o ymarferwyr gofal a rennir (BCUHB Contact Lens Department, 2024).

Mae ymarferwyr gofal a rennir yn derbyn taliad gan yr ysbyty am apwyntiadau dilynol i werth cyfatebol Band 1 WGOS 2.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Specialist Contact Lens Service
HM Stanley Eye Unit
Abergele Hospital
Llanfair Road
Abergele
LL22 8DP

Appendix A

Form Reference: CLMP

Specialist Contact Lens Service Plan for Management in Primary Care

Patient Details

Hospital Number: _____

Name: _____ D.O.B. _____

Address: _____

Dear Optometrist / CLO,

It has been deemed clinically appropriate for the above named patient to receive their contact lens care in primary care. Their current wearing schedule is as follows:

Contact Lens Specification

	Lens Details	BC	TD	Sph	Cyl	Axis	VA
R							
L							

Other Information

Cleaning Solutions:			
Wearing Schedule:	Daily wear ☐	Aftercare every	Weeks / Months
	Extended wear ☐	Replacement lenses	Weeks / Months
Notes:			

Please continue their contact lens management as agreed in the documentation for this service.

Yours sincerely,

Contact Lens Clinician

Ffigur 6. Enghraifft Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o lythyr atgyfeirio gan ofal eilaidd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr at ofal sylfaenol a chynllun rheoli gofal ganddynt (Adran Lensys Cyffwrdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 2024)

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Arbenigol Atgyfeiriad ar gyfer Apwyntiad Dilynol Gofal Eilaidd

Manylion y Claf Enw: _____ Rhif Ysbyty: _____ Dyddiad Geni: _____ Cyfeiriad: _____ _____ _____ _____	Manylion Optometrydd/Optegydd Lensys Cyffwrdd Enw: _____ Cyngor Offthalmig Cyffredinol: _____ _____ Practis: _____ _____ _____ _____
---	--

Fel rhan o'r Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Arbenigol, gwelais y claf uchod heddiw ac yn teimlo bod angen apwyntiad dilynol yn y gwasanaeth lens cyffwrdd eilaidd am y rheswm canlynol:

- ☐ Nid yw'r lens bellach yn gosod yn dda, ac mae angen gosod pellach.
- ☐ Bu newid yn y cyflwr clinigol nad oes angen barn ymgynghorydd.
- ☐ Mae'r claf wedi colli dau apwyntiad yn olynol.
- ☐ Arall: _____

Lens/lensys a roddwyd yn fwyaf diweddar:

	Manylion y Lens	BC	TD	Sff	Cyl	Echelin
D						
Ch						

Manylion pellach:

Rwy'n argymhell y dylid gweld y claf yn rheolaidd / ar frys (*dileer fel y bo'n briodol).

Yn gywir,

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Ffigur 7. Enghraifft Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ailatgyfeirio gofal sylfaenol i ofal eilaidd ar gyfer cleifion gofal a rennir. (Adran Lensys Cyffwrdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 2024)

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Canolbarth Cymru (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys)

Mae gan **Fwrdd Iechyd Addysgu Powys** boblogaeth o 133,891 (StatsWales, 2022). Ar hyn o bryd nid oes gwasanaeth lens cyffwrdd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'r adrannau offthalmoleg yn atgyfeirio cleifion i fyrddau iechyd cyfagos ar gyfer gofal lensys cyffwrdd gyda chytundeb byrddau iechyd eraill. Nid oedd unrhyw ffigurau ar gael ar gyfer nifer y cleifion a atgyfeiriwyd allan o'r ardal ar gyfer lensys cyffwrdd. Credir bod y mwyafrif yn cael eu gweld yn Ysbyty Amwythig ac Ysbyty Henffordd, gydag ychydig o gleifion yn symud i wasanaethau Ysbyty De Cymru (PTHB Optometric Advisor, 2024).

Yn seiliedig ar ddata gweithgaredd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, byddai'n rhesymol rhagweld y byddai angen lensys cyffwrdd ar tua 130 o gleifion.

Gorllewin Cymru (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)

Mae gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** boblogaeth o 385,094 (StatsWales, 2022). Mae gwasanaeth a sefydlwyd a'i redeg yn flaenorol gan gontractwr optometrydd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, wedi dod i ben tua dwy flynedd yn ôl. Ni chodwyd tâl ar gleifion am osod na chyflenwi lensys cyffwrdd; fodd bynnag, codwyd ffi arnynt am eu cyflenwad o doddiannau.

Adroddir bod gwasanaeth newydd yn y broses o gael ei sefydlu'n gychwynnol gan yr optometrydd lensys cyffwrdd arbenigol presennol o Gastell-nedd Port Talbot, De Cymru. Bydd gosod ac ailosod lensys cyffwrdd newydd yn cael eu cynnal gan yr ymarferydd lens cyffwrdd yn Ysbyty'r Tywysog Philip am 3 sesiwn y mis ynghyd ag apwyntiadau dilynol sy'n cael eu cynnig mewn practisau gofal sylfaenol.

Bydd yn ofynnol i gleifion gyfrannu tuag at gost lensys a thoddiannau; fodd bynnag, nid oes unrhyw brisiau wedi'u datgan ar hyn o bryd (CL Specialty Optometrist, 2024)

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

Nid oes unrhyw niferoedd cleifion ar gael ar gyfer y bwrdd iechyd hwn, felly yn seiliedig ar ddata gweithgaredd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr rhagwelir y bydd angen lensys cyffwrdd ar tua 374 o gleifion.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

De Cymru

Mae gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe** boblogaeth o 383,440 (StatsWales, 2022). Darperir y gwasanaeth lens cyffwrdd yn ganolog o Ysbyty Singleton, Abertawe, drwy gytundeb â phractis optometrig annibynnol yn yr ysbyty.

Mae offthalmoleg yn cyhoeddi Taleb briodol, a roddir i'r claf y gellir ei chymryd i bractis o'u dewis, gan gynnwys y practis yn yr ysbyty. Mae'r practis yn anfonebu ysbyty Singleton am gost y lensys a'r amser yn y gadair yn erbyn y Daleb.

Nid oes ffi i gleifion am osod na lensys. (WOC, 2023).

Yn seiliedig ar ddata gweithgaredd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rhagwelir y bydd angen lensys cyffwrdd ar tua 372 o gleifion.

Mae gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg** boblogaeth o 444,037 (StatsWales, 2022). Mae gwasanaeth ysbyty yn bodoli ar hyn o bryd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant.

Mae'r gwasanaeth lensys cyffwrdd yn cynnig pob math o lensys cyffwrdd yn amrywio o RGP cornbilen arbenigol, lled-sgleral i sgleral argraff. Maent hefyd yn gosod lensys cyffwrdd meddal prosthetig wedi'u hargraffu eu paentio â llaw. Darperir gosod a phecyn cychwynnol o doddiant lensys cyffwrdd am ddim i gleifion. Fodd bynnag, mae cleifion sgleral yn derbyn presgripsiwn meddyg teulu ar gyfer toddiannau parhaus. Y ffi i gleifion am lensys cyffwrdd yw £57.00 y lens (CTMUHB Optometrist, 2024).

Yn seiliedig ar ddata gweithgaredd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rhagwelir y bydd angen lensys cyffwrdd ar tua 431 o gleifion.

Mae gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** boblogaeth o 505,581 (StatsWales, 2022). Daeth y gwasanaeth lensys cyffwrdd yng Nghaerdydd i ben yn 2023 oherwydd ymddiswyddiad y tîm optometreg ac nid yw wedi'i adfer eto.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch lle mae cleifion yn cael eu cyfeirio ar gyfer eu gofal. Mae'n debygol y ceir gofal mewn ardaloedd cyfagos neu fod yn rhaid i gleifion geisio gofal yn breifat drwy eu practis optometrig lleol.

yn seiliedig ar ddata gweithgaredd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rhagwelir y bydd angen lensys cyffwrdd ar tua 490 o gleifion.

De-ddwyrain Cymru (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)

Mae gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** boblogaeth o 591,396 (StatsWales, 2022). Darperir lensys cyffwrdd drwy dîm optometreg sydd wedi'i leoli yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Nid oes protocolau / polisïau lensys cyffwrdd ffurfiol yn eu lle ar hyn o bryd (HES Optometrist ABUHB, 2024).

Mae'r gosod cychwynnol yn cael ei ariannu heb ffi i gleifion. Ni ddarperir toddiannau i gleifion; fodd bynnag, mae'r ymarferydd ysbyty yn cyhoeddi gwybodaeth i gleifion ynghylch sut i gael gafael arnynt.

Mae nifer y cleifion y mae angen lensys cyffwrdd arbenigol arnynt ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi'i wyro oherwydd bod nifer o gleifion sy'n dewis derbyn eu gosod a'u cyflenwad yn breifat gan bractisau optometreg lleol ar y stryd fawr. Hefyd, mae rhai cleifion y mae angen croesgysylltu collagen ar y gornbilen arnynt yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol i Ysbyty Llygaid Bryste dros y ffin. Adroddir bod llawer o'r cleifion hyn wedyn yn cael lensys wedi'u gosod y tu allan i'r ardal.

Y nifer presennol o gleifion lensys cyffwrdd ysbyty yw 164 (HES Optometrist ABUHB, 2024). Fodd bynnag, gan fod y ffigur hwn yn debygol o fod wedi'i wyro, yn seiliedig ar ddata gweithgaredd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr rhagwelir y bydd angen lensys cyffwrdd ar tua 574 o gleifion.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

Crynodeb o'r Canfyddiadau

Fel y dengys y manylion uchod, mae darpariaeth amrywiol o hyd ar gyfer gosod a chyflenwi lensys cyffwrdd arbenigol ledled Cymru gyfan. Mae Ffigur 8 yn dangos y nifer tebygol o wisgwyr lensys cyffwrdd gweithredol mewn gwasanaethau lensys cyffwrdd gofal eilaidd.

Rhanbarth	Bwrdd Iechyd	Cyfanswm y Boblogaeth	Gwisgwyr Lensys Cyffwrdd Gweithredol
Gogledd Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	688,201	668
Canolbarth Cymru	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	133,891	130
Gorllewin Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	385,094	374
De Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	383,440	372
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	444,037	431
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	505,581	490
De-ddwyrain Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	591,396	574
CYFANSYMIAU		3,131,640	3,039

Ffigur 8. Cyfanswm y Gwisgwyr Lensys Cyffwrdd Gofal Eilaidd Gweithredol yn seiliedig ar y boblogaeth.

Yn seiliedig ar allosod ffigur Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o 0.097% o'r boblogaeth fel gwisgwyr lensys cyffwrdd gofal eilaidd gweithredol, mae hyn

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



yn rhoi ffigur o 3,039 o gleifion lensys cyffwrdd gweithredol ar gyfer poblogaeth o 3,131,640 yng Nghymru.

Mae Ffigur 9 isod yn dangos cyfanswm nifer amcangyfrifedig y cleifion lensys cyffwrdd newydd a fydd yn cael eu hatgyfeirio a chleifion apwyntiadau dilynol a ddisgwylir mewn blwyddyn i ofal eilaidd. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y data byw o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac wedi'u hallosod ar gyfer pob rhanbarth. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar ganran o gleifion lensys cyffwrdd sylfaenol mewn blwyddyn 45 wythnos i ystyried gwyliau staff a gwyliau banc.

	Nifer y Cleifion Lensys Cyffwrdd Gweithredol (Yn seiliedig ar y boblogaeth)	Nifer presennol o sesiynau Clinig Lensys Cyffwrdd	Amcangyfrif o gyfanswm nifer yr apwyntiadau llythyr newydd sydd eu hangen mewn blwyddyn	Amcangyfrif o nifer yr apwyntiadau dilynol sydd eu hangen mewn blwyddyn
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	668	3 Atgyfeiriad newydd yr wythnos (Cyfartaledd 6 chlaf yr wythnos) 6 Apwyntiad dilynol yr wythnos (Cyfartaledd 30 claf yr wythnos) Cyfwerth = 9 sesiwn yr wythnos	270 (Yn seiliedig ar flwyddyn 45 wythnos = 40% o'r sylfaen cleifion)	1350 (Yn seiliedig ar flwyddyn 45 wythnos = 200% o'r sylfaen cleifion)
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	130	Dd/B	52	260
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	374	Dd/B	150	748
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	372	Dd/B	149	744
	431		173	862

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg		2 glaf atgyfeirio newydd yr wythnos 8 claf dilyn i fyny yr wythnos Cyfwerth = 2 sesiwn yr wythnos		
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	490	Dd/B	196	980
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	574	Dd/B	230	1,148
Cyfartaledd fesul bwrdd iechyd	434		136	868
Cyfanswm Cymru Gyfan	3,039		950	6,078

Ffigur 9. Amcangyfrif o nifer yr atgyfeiriadau ac apwyntiadau dilynol newydd mewn adrannau lensys cyffwrdd gofal eilaidd y flwyddyn

Arfarniad o Opsiynau

Tabl 1. Arfarniad o Opsiynau o'r model gwasanaeth presennol

Opsiwn 1: Gwneud dim byd.	Cryfderau	Mae gwasanaeth yn bodoli ar gyfer rhai cleifion
	Gwendidau	- Bydd cleifion yn parhau i dderbyn gwasanaeth amrywiol am gostau amrywiol ledled Cymru. - Bydd byrddau iechyd yn parhau i dalu costau amrywiol yn dibynnu ar drefniadau lleol gydag optometryddion a threfniadau o fewn y gwasanaeth ysbyty. - Bydd gofal eilaidd yn profi nifer cynyddol o atgyfeiriadau ar gyfer cleifion croesgysylltu'r gornbilen.
Opsiwn 2: Datblygu gwasanaeth cenedlaethol safonol mewn gofal sylfaenol.	Optometryddion/optegwyr lensys cyffwrdd achrededig mewn gofal sylfaenol i osod a darparu ôl-ofal ar gyfer lensys cyffwrdd arbenigol (a thoddiannau/ategolion lensys cyffwrdd). Mae'r taliad cydnabyddiaeth i ymarferwyr am osod lensys ac ôl-ofal yn gyson yn genedlaethol ac yn cael ei ddarparu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ac mae lensys yn cael eu darparu am gost taleb ysbyty i'r claf (ac eithrio cleifion sydd wedi'u heithrio drwy fudd-daliadau prawf modd). Mae cleifion yn cael eu rheoli o dan y system hon nes bod cymhlethdod achos yn ei gwneud yn ofynnol atgyfeirio i glinigau Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty.	

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

	Cryfderau	• Mae rhwydwaith o ymarferwyr lleol mewn gofal sylfaenol sy'n darparu'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd. • Gellir gweld cleifion yn lleol ac ni fydd yn rhaid iddynt deithio i'r ysbyty. • Gellir gweld cleifion mewn modd amserol heb iddynt orfod aros ar restrau aros ysbyty. • Bydd cleifion yn derbyn gofal unffurf ac yn talu prisiau safonol waeth ble maent yn byw yng Nghymru, fel arfer Gwerth Taleb 12. • Bydd ymarferwyr yn derbyn ffi benodol am osod ac ôl-ofal ar gyfer y cleifion hyn a fydd yn cyd-fynd â lefelau Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru. • Hyfforddiant ac achredu ymarferwyr a ddatblygir gan AaGIC. • Bydd yn haws i gleifion dderbyn cyngor a chyfeirio safonol (cymorth gan y trydydd sector, cymorth cyflogaeth ac ati.)
	Gwendidau	• Gall hwn fod yn wasanaeth drutach o'i gymharu â gwasanaethau ysbyty a bydd angen cytundeb cenedlaethol

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

		gyda'r proffesiwn a'r byrddau iechyd. • Bydd rhywfaint o faich gweinyddol i oruchwylio'r gwaith o ddarparu a llywodraethu'r system hon. • Byddai angen cytuno ar ofynion hyfforddi neu achredu i ddarparu'r gwasanaeth. • Bydd angen cytuno ar y broses o archebu lensys a thalu amdanynt, gyda chaffael canolog. • Gall lensys a archebir fesul claf arwain at gost uwch o'i gymharu â gwasanaeth a gaffaelir. • Efallai y bydd rhanbarthau nad oes ganddynt ddarpariaeth gwasanaeth, ac efallai y bydd angen gofynion hyfforddiant ac achredu newydd. • Bydd cytundeb cenedlaethol a hyfforddiant yn ofynnol i benderfynu ar gymhwysedd cleifion ar gyfer lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol yn glinigol os nad oes angen atgyfeirio i Wasanaeth Llygaid mewn Ysbyty i gyhoeddi Taleb WGOS 12. • Ni fydd practisau yn derbyn taliad am lensys
--	--	--

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

		cyffwrdd o'i gymharu â gwasanaeth a ariennir yn breifat.
Opsiwn 3: Cyflogi mwy o optometryddion ysbytai ac optegwyr lensys cyffwrdd mewn clinigau ysbytai.	Cryfderau	• Bydd gan optometryddion ysbytai / optegwyr lensys cyffwrdd eisoes y sgiliau sydd eu hangen i ddarparu'r lefel hon o ofal i gleifion. • Gall cydweithwyr mwy profiadol drosglwyddo eu sgiliau i gydweithwyr llai profiadol drwy hyfforddiant mewnol. • Mae costau staff yn cael eu rheoli drwy ddyraniadau sesiynau strwythuredig. • Mae cleifion yn derbyn gwasanaeth arbenigol, mae angen llai o apwyntiadau dilynol arnynt ac efallai y bydd angen llai o newidiadau lensys arnynt ar gyfartaledd, o gymharu â gwasanaeth a arweinir gan y gymuned.
	Gwendidau	• Efallai y bydd angen rhywfaint o fuddsoddiad mewn offer, efallai y bydd angen lle clinig ychwanegol (sydd eisoes yn gyfyngedig), a bydd angen mwy o fuddsoddiad mewn amser ymarferwyr sesiynol.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

		• Bydd yn rhaid i gleifion deithio ymhellach i gael y gwasanaeth hwn o'i gymharu â gofal sylfaenol. • Mae o leiaf ddau fwrdd iechyd yn cael trafferth staffio eu gwasanaeth presennol (ac yn edrych i allanoli gwasanaethau i ofal sylfaenol). • Fel arfer, mae angen apwyntiad ymgynghorydd i roi diagnosis o gyflwr llygaid a chyhoeddi Taleb 12 (fel arfer) i ddechrau'r llwybr, sy'n ddefnydd aneffeithlon o amser gofal eilaidd. • Rhaid i gleifion aros am amser hir am apwyntiadau Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty ac mae'r grŵp oedran gweithio hwn yn cymryd amser sylweddol i ffwrdd o'u swyddi dydd er mwyn dod i'r apwyntiadau hyn.
Opsiwn 4: Datblygu gwasanaethau gwell lleol a chynnig gwaith i optometryddion/optegwyr lensys cyffwrdd lleol i ddarparu'r lensys a'r gofal am ffi sy'n adlewyrchu cyfanswm y gost wirioneddol.	Cryfderau	• Mae rhwydwaith o ymarferwyr lleol (optometryddion ac optegwyr lensys cyffwrdd) mewn gofal sylfaenol sy'n darparu'r gwasanaeth hwn yn breifat ar hyn o bryd. • Gellir gweld cleifion yn lleol gyda pharhad gofal

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

		uchel ac ni fydd yn rhaid iddynt deithio i'r ysbyty. Gellir gweld cleifion mewn modd amserol heb iddynt orfod aros ar restrau aros ysbyty.
	Gwendidau	- Mae'n debygol y bydd hwn yn wasanaeth drutach o'i gymharu â gwasanaeth ysbyty. Mae gan bractisau orbenion a thaliadau am lensys, ac mae costau apwyntiadau yn amrywio'n fawr ar draws gwahanol ardaloedd. Byddai'n heriol gosod taliad cydnabyddiaeth sy'n gyson yn genedlaethol. - Mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o lensys, yn aml oherwydd profiad a dewis proffesiynol. - Nid yw ymarferwyr sydd â diddordeb mewn darparu'r gwasanaeth yn aml yn ymwybodol o sut i ennill hyfforddiant ac arbenigedd yn y maes hwn gan fod y gwasanaeth mor dameidiog.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Argymhelliad gan Bwyllgor Optometrig Cymru i Lywodraeth Cymru


Er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau lensys cyffwrdd arbenigol a chynyddu capasiti gofal eilaidd, ystyriwyd opsiynau ar gyfer darparu Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Arbenigol Cymru Gyfan.

Mae Pwyllgor Optometrig Cymru yn cytuno y dylid defnyddio un strategaeth safonol i greu Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan unedig. Byddai'n ddoeth defnyddio practisau cofrestredig Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru ynghyd ag unedau ysbytai sydd eisoes yn darparu gofal lensys cyffwrdd arbenigol i gyflawni hyn, gyda gofal sylfaenol ac eilaidd yn gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaeth integredig.

Yn dilyn yr arfarniad o opsiynau, argymhellir opsiynau 2 a 3 i symud ymlaen gyda Ffigur 10 isod yn dangos diagram llif o'r gwasanaeth disgwylidig.

Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan arfaethedig GIG Cymru mewn gofal sylfaenol.

Llwybr Gwasanaeth Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru



Ffigur 10. Llwybr Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan arfaethedig.

Unwaith y bydd gwasanaeth newydd yn rhedeg mewn gofal sylfaenol, bydd cleifion a welir mewn gofal eilaidd ar hyn o bryd yn cael eu rhyddhau ar adeg briodol gan yr ymarferydd gofal eilaidd a'u gweld mewn gofal sylfaenol, os ystyrir bod hynny'n briodol yn glinigol. Y nod fydd cadw cleifion mewn gofal

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

sylfaenol cyhyd ag y bo modd, gyda dim ond yr achosion mwyaf cymhleth yn parhau â'u gofal mewn lleoliad gofal eilaidd.

Bydd y gwasanaeth yn gofyn am gysoni gwasanaethau gosod lensys, lensys cyffwrdd, a chynhyrchion gofal lensys cyffwrdd. Er mwyn darparu tegwch gwasanaeth, bydd angen i ofal eilaidd godi ffi ar y claf ar y Daleb optegol a argymhellir (Taleb 12 fel arfer) pan fydd angen lens gyffwrdd newydd (oni bai ei fod wedi'i eithrio).

Mae Tabl 2 isod yn nodi manylion posibl ar gyfer Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Arbenigol Cymru Gyfan arfaethedig.

Bydd y ffioedd ar gyfer pob agwedd ar y gwasanaeth yn gofyn am drafodaethau tair rhan rhwng GIG Cymru, Llywodraeth Cymru ac Optometreg Cymru, a rhaid iddynt ystyried lefelau'r hyfforddiant sy'n ofynnol a hyd yr apwyntiad ar gyfer pob lefel.

Bydd angen rhywfaint o hyfforddiant ymarferwyr i sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu'n llwyddiannus, ynghyd ag ystyried hawliau taid ar gyfer ymarferwyr lensys cyffwrdd arbenigol sydd eisoes yn darparu gwasanaethau presennol.

Bydd Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) yn pennu cwmpasu unrhyw ofynion hyfforddi unwaith y bydd manylion y cynnig wedi'u cwblhau. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad 5.

Mae'r taliad cyfraniad cleifion Taleb 12 presennol o £57.00 ar gyfer pob lens gyffwrdd a osodir gan Lywodraeth Cymru yn debygol o fod yn ddigonol ar gyfer swm sylweddol o lensys. Fodd bynnag, efallai y bydd gan rai o'r lensys mwy arbenigol gost uwch. Er enghraifft, gall lens sgleral gostio dros £100.00 y lens neu fwy (Menicon, 2024).

Ni fyddai'n addas i bractis archebu lensys a thalu amdanynt lle mae costau'r lensys yn fwy na'r taliad cydnabyddiaeth. Felly, amlinellir rhai opsiynau ar gyfer caffael lensys yn Atodiad 6.

Dim ond un rhan o driniaeth a chymorth llwyddiannus yw lensys cyffwrdd i gleifion y mae angen lensys cyffwrdd arbenigol arnynt, a allai hefyd ddioddef o amhariad sylweddol ar y golwg. Er mwyn bod yn llwyddiannus, dylai Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru fod yn gyfannol ei natur (fel y byddai'n cael ei ddarparu mewn gofal eilaidd).

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Mae Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru yn cefnogi dull integredig o ran gwasanaethau gofal llygaid, gan gyfuno amser ac adnoddau gofal sylfaenol ac eilaidd.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Tabl 2. Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan arfaethedig

Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru arfaethedig	
Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Lefel 1 (WCLS1): Gwasanaeth ôl-ofal mewn gofal sylfaenol	Gallai gwasanaeth ôl-ofal gael ei ddarparu gan holl optometryddion ac optegwyr lensys cyffwrdd achrededig y Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru yng Nghymru. Er eglurder, dylai 'ôl-ofal' ar gyfer y gwasanaeth hwn gynnwys gwirio bod y lens yn addas ar gyfer y claf (disgrifiad manwl yn Atodiad 4). Os ystyrir nad yw'r lens yn addas ar gyfer y claf yn yr apwyntiad WCLS1, dylid ailgyfeirio'r claf i WCLS2 i'w ailosod gan ymarferydd sydd wedi'i hyfforddi'n briodol. Gan fod Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru yn llwyfan delfrydol ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath, dylai fod yn bosibl ei ddarparu gan yr holl optometryddion ac optegwyr lensys cyffwrdd o dan y gofynion sylfaenol newydd. Byddai ffioedd priodol yn gofyn am drafodaethau tair rhan rhwng GIG Cymru, Llywodraeth Cymru ac Optometreg Cymru. Awgrymir bod ymarferwyr gofal eilaidd sy'n rhyddhau cleifion i'r gwasanaeth o'r farn bod y claf yn addas ar gyfer y gwasanaeth hwn ac yn cael ei ystyried yn sefydlog, felly disgwylir risg fach iawn o gymhlethdodau. Am y rheswm hwn, gall yr apwyntiadau hyn fod yn fyrrach o ran hyd na gwasanaethau mwy cymhleth.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Lefel 2 (WCLS 2): Gosod Lensys Cyffwrdd a Mireinio Atgyfeirio Cornbilen (e.e., croesgysylltu collagen ar y gornbilen)	Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnwys: • Gwasanaeth gosod lensys ac ôl-ofal a ddarperir gan optometryddion/optegwyr lensys cyffwrdd achrededig Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru sydd â diddordeb mewn gosod ac ôl-ofal lensys cyffwrdd arbenigol. • Ôl-ofal cymhleth ar gyfer cleifion a nodwyd yn glinigol, gan gynnwys cleifion lens cyffwrdd rhwymyn ar gyfer cyflyrau cronig, fel yr ystyrir yn addas gan yr arbenigwr cornbilen. • Archwiliad ac argymhelliad/rhestru ar gyfer croesgysylltu'r gornbilen a monitro croesgysylltu'r gornbilen, gan ddefnyddio offer a thechnegau mesur/adrodd y cytunwyd arnynt ac wedi'u safoni drwy OpenEyes neu gofnod electronig cyfatebol am gleifion. Ni ddylai fod terfyn ar nifer yr ymarferwyr sy'n gallu cynnig y gwasanaeth hwn.
	Lensys Cyffwrdd Arbenigol Gellir gweld disgrifiad manwl yn Atodiad 4. Bydd WCLS2 yn gofyn am lefel ychwanegol o hyfforddiant ac efallai y bydd angen ystyried hawliau taid ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu'r gwasanaeth mewn gofal eilaidd ar hyn o bryd, a gallai AaGIC bennu cwmphas yr anghenion hyfforddi sydd eu hangen ar ôl cytuno ar fanylion y gwasanaeth a'u cwblhau. Efallai y bydd angen darparu offer ychwanegol i'w ariannu gan fyrddau iechedd lleol. Bydd hyd yr apwyntiadau yn hirach. At hynny, bydd angen apwyntiadau dilynol er mwyn sicrhau llwyddiant y gosod. Dylai amllder y gwiriadau hyn fod yn seiliedig yn llwyr ar farn broffesiynol yr ymarferydd gofal llygaid ar anghenion clinigol y claf, y math o lensys cyffwrdd a wisgir, y dull gwisgo a barn strwythuredig yr ymarferydd ar y risg o ddigwyddiadau niweidiol. Mireinio Atgyfeirio Cornbilen Arbenigol

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

	Byddai cleifion sydd wedi cael eu trin gan y tîm cornbilen gofal eilaidd ar gyfer croesgysylltu colagen ar y gornbilen a grafftiau cornbilen sefydlog sy'n cael eu hystyried yn addas ar gyfer monitro gweithredol o'u cyflwr yn addas ar gyfer WCLS2. Byddai angen tomograffeg cornbilen gofal sylfaenol, archwiliad lamp hollt segment blaen y llygad a chraffter golwg wedi'i gywiro orau ar y claf er mwyn asesu sefydlogrwydd y gornbilen.
Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Lefel 3 (WCLS3): Gwasanaeth Llygaid Arbenigol mewn Ysbyty	Gwasanaeth ar gyfer cleifion cymhleth fel sy'n angenrheidiol yn glinigol, ar gyfer gosod lensys cyffwrdd arbenigol (e.e., sgleral) ac yn cynnwys y rhai sy'n gofyn am groesgysylltu'r gornbilen a datblygiad posibl y gwasanaeth yn y dyfodol i gwmpasu monitro cyflyrau eraill y gornbilen. Byddai angen tomograffeg cornbilen, archwiliad lamp hollt segment blaen y llygad a chraffter golwg wedi'i gywiro orau ar y claf er mwyn asesu sefydlogrwydd y gornbilen. Byddai symud gwasanaethau monitro cornbilen a gosod lensys cyffwrdd cymhleth i ofal sylfaenol yn rhyddhau capasiti ar gyfer gwasanaethau cornbilen gofal eilaidd yn ogystal ag optometryddion ysbytai ac optegwyr lensys cyffwrdd. Dangosir disgrifiad o hyn yn Atodiad 4.

Atodiad 1: Mae Adran Iechyd y DU (2006) yn nodi argymhellion ar gyfer darparu lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol yn glinigol:

Yr Adran Iechyd (DoH) Adran 2.7. Cyflenwi lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol yn glinigol a thaliadau cleifion amdanynt.

Cydnabyddir bod yna gleifion y mae lensys cyffwrdd yn glinigol angenrheidiol. Dim ond offthalmolegydd ymgynghorol ysbyty, neu berson y mae'r cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo, all benderfynu a oes gan glaf angen clinigol am lensys cyffwrdd. Mae ffi cleifion am lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol yn glinigol. Mae'r ffi yn cael ei hadolygu'n flynyddol ac mae'n daladwy mewn perthynas â phob lens cyffwrdd a ddarperir. Pan fo newid lensys cyffwrdd yn aml yn angenrheidiol yn glinigol, yr amcan ddylai fod darparu cyflenwad o lensys sy'n para am tua 6 mis, fel mai dim ond ar yr adeg ofynnol y codir ffi ar y claf wedi hynny.

DoH Adran 2.8 Cyflenwi cynhyrchion gofalu am lensys cyffwrdd.

Pan fo'r Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty wedi rhagnodi lensys cyffwrdd ar sail angenrheidrwydd clinigol, ystyrir bod darparu cynhyrchion gofalu am lensys cyffwrdd (toddiannau glanhau a sterileiddio, a chas) yn rhan annatod o'r therapi. Dylai Ymddiriedolaethau Ysbytai sicrhau bod darpariaeth ar gyfer cynhyrchion gofalu am lensys cyffwrdd ar gael i bob claf y maent wedi rhagnodi lensys cyffwrdd clinigol angenrheidiol ar eu cyfer. Dylai cleifion dalu'r ffi presgripsiwn arferol am bob cyflenwad oni bai eu bod mewn categori wedi'i eithrio mewn perthynas â chyflenwi meddyginiaethau neu fod ganddynt dystysgrif rhagdalau ddilys.

Pan fo lensys i'w gosod/cyflenwi gan optegydd y tu allan i'r ysbyty neu'r clinig, dylai'r Ymddiriedolaeth Ysbyty sicrhau bod ei threfniadau gyda'r optegydd yn cwmpasu cyflenwad cynhyrchion gofal dros oes y lensys.

DoH Adran 2.9 Lensys cyffwrdd therapiwtig a phrosthetig.

Mae lensys pŵer plano a ddefnyddir fel rhwymynnau therapiwtig, lensys cyffwrdd achludol a lensys cyffwrdd prosthetig heb olwg wedi'u heithrio rhag taliadau. Mae lensys prosthetig sy'n ymgorffori cywiriad optegol yn destun ffi yn amodol ar yr eithriadau a nodir yn Atodiad 2 (DoH, 2006). Mae gan bobl o fewn y categorïau a restrir yn Atodiad 2 (DoH, 2006) hawl i gymorth, drwy

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

gynllun Talebau'r GIG, tuag at dalu costau eu sbectol neu lensys cyffwrdd. Os yw'r sbectol neu'r lensys cyffwrdd yn costio mwy na gwerth y Daleb, bydd yn rhaid i'r claf dalu'r gwahaniaeth.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Atodiad 2: Cyngor gan Gymdeithas yr Optometryddion ynghylch Lensys Cyffwrdd sy'n Angenrheidiol yn Glinigol

Ar gael yn: <https://www.aop.org.uk/advice-and-support/regulation/uk/hospital-supply-of-contact-lenses>

Bwriad y nodiadau hyn yw cynorthwyo ymarferwyr wrth ystyried yr angen clinigol i gyflenwi lensys cyffwrdd mewn ysbyty. Fodd bynnag, nid yw'r nodiadau i fod yn rhagnodol nac yn hollgynhwysfawr.

LENSYS CYFFWRDD SY'N ANGENRHEIDIOL YN GLINIGOL

Mae cleifion unigol adrannau llygaid ysbytai yn gymwys i gael lensys cyffwrdd o dan y GIG, lle mae angen clinigol.

Bydd ffioedd statudol cleifion y GIG, gan gynnwys trefniadau ar gyfer eithrio neu ddileu ffioedd yn berthnasol.

Dylid cyfeirio at ganllawiau'r Adran Iechyd ac unrhyw ddiweddariadau blynyddol i ffioedd optegol ynghylch y ffioedd presennol i gleifion ac eithrio/dileu rhag ffioedd.

Dylai comisiynwyr y GIG ystyried cost darparu dyfeisiau optegol hefyd.

Bydd angen clinigol fel arfer yn cael ei ddangos pan ystyrir lens gyffwrdd, gan yr offthalmolegydd cyfrifol / optometrydd ysbyty, fel un sy'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth therapiwtig, prosthetig neu weledol orau.

Yn amodol ar welliant clinigol amlwg (gweler y nodiadau isod), ni fyddai angen clinigol fel arfer yn destun amheuaeth yn yr amgylchiadau canlynol:

Lleihau craffter golwg wedi'i gywiro orau yn sgil:

Lleihau craffter golwg wedi'i gywiro orau yn sgil:	
Afreoleidd-dra Cornbilen	Albinedd, aniridia, coloboma, ptosis
Myopia yn fwy na -15.00D	Cymwysiadau therapiwtig
Hiolwg sy'n fwy na +10.00D	Anffurfio cosmetig ociwlar
Anisometropia o 5.00D neu fwy	Cyflyrau wyneb neu ddermatolegol



Astigmatedd o 5.00D neu fwy

Cymeradwyaeth arall gan
ymgyngorydd

Nodiadau Cynghori a argymhellir gan Gymdeithas yr Optometryddion:

1. Ym mhob achos dylid rhagnodi lensys cyffwrdd i gyflawni'r budd clinigol mwyaf posibl gyda'r risg leiaf posibl i'r claf. Dylid ystyried sbectol neu ddulliau rheoli ceidwadol eraill bob amser.
2. Ac eithrio mewn arwyddion therapiwtig (rhwymyn) neu brosthetig/cosmetig, dylai lensys cyffwrdd gyflawni gwelliant mewn swyddogaeth weledol o'i gymharu â sbectol. Dylai fod naill ai gwelliant mesuradwy mewn craffter golwg, gyda'r claf yn dangos gwell swyddogaeth weledol a/neu welliant mewn maes golwg gyda lensys cyffwrdd, o'i gymharu â sbectol.
3. Mae cleifion ag afreoleidd-dra cornbilen unochrog yn aml yn rhoi'r gorau i wisgo lensys cyffwrdd.
4. Dylai atgyfeiriadau ar gyfer gosod lensys cyffwrdd (gosod am resymau seicolegol) gael eu cefnogi gan adroddiad gan seicolegydd clinigol neu addysgol, neu seiciatrydd, a dylid adolygu cymhwysedd yn flynyddol.
5. Dylid ategu atgyfeiriadau ar gyfer lensys cyffwrdd lle mae gan y claf gronfeydd cyfyngedig iawn o ran uno, gyda chais orthoptig ac offthalmolegol yn dilyn anoddefiad i sbectol.
6. Mae rhai cyflyrau mewn plant yn debygol o fod yn amblyogenig os yw plentyn yn gwrthod gwisgo sbectol (neu lensys cyffwrdd).
7. Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael. Rydym yn croesawu adolygiad yn dilyn ymchwil i well swyddogaeth weledol gyda lensys cyffwrdd ar gyfer cywiro hirolwg.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Atodiad 3: Opsiynau ar gyfer offer

Gwasanaeth	Offer	Darpariaeth
WCLS 1	Lamp Hollt Ceratomedr	I'w darparu gan ymarferydd fel safon ofynnol ar gyfer pob ymarferydd
WCLS 2	Lamp Hollt Ceratomedr	I'w darparu gan ymarferydd fel safon ofynnol ar gyfer pob ymarferydd.
	Setiau Gosod Lensys Cyffwrdd	I'w darparu gan ymarferydd sy'n dymuno cymryd rhan yn WCLS2
	Tomograffydd cornbilen (<i>Hanfodol ar gyfer gwasanaethau monitro</i>) - Argymhellir bod y tomograffydd yn gallu asesu pŵer blaen/ôl y gornbilen; Trwch y gornbilen (gan gynnwys pachymetreg teneuaf) a phŵer mwyaf y gornbilen (K-Max).	I'w darparu gan ymarferydd sy'n dymuno cymryd rhan yn WCLS2
WCLS3	Lamp Hollt Ceratomedr	I'w darparu gan y bwrdd iechyd fel y mae ar hyn o bryd
	Setiau Gosod Lensys Cyffwrdd	I'w darparu gan y bwrdd iechyd fel y mae ar hyn o bryd
	Tomograffydd cornbilen (<i>Hanfodol ar gyfer gwasanaethau monitro</i>) - Argymhellir bod y tomograffydd yn gallu asesu pŵer blaen/ôl y gornbilen; Trwch y gornbilen (gan gynnwys pachymetreg teneuaf) a phŵer mwyaf y gornbilen (K-Max).	I'w darparu gan y bwrdd iechyd fel y mae ar hyn o bryd
	OCT Segment Blaen y Llygad	I'w ddarparu gan y bwrdd iechyd

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Atodiad 4: Manylion arfaethedig gwasanaeth cenedlaethol mewn gofal sylfaenol

Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Lefel 1 (WCLS1): Gwasanaeth ôl-ofal mewn gofal sylfaenol a ddarperir gan unrhyw optometrydd neu optegydd lensys cyffwrdd Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru yng Nghymru.

Atgyfeirio	Archebu Lensys Cyffwrdd	Ymarferydd Taliadau	Offer
Ar hyn o bryd mae'r holl gleifion lensys cyffwrdd arbenigol yn cael eu gweld drwy'r gwasanaeth llygaid mewn ysbyty/gwasanaeth a gomisiynwyd ar gyfer ôl-ofal. Byddai WCLS1 yn galluogi cleifion a bennir yn glinigol i gael mynediad at ôl-ofal o fewn gofal sylfaenol gyda gwybodaeth briodol drwy gynllun atgyfeirio a rheoli cleifion gan y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty. Atgyfeirio i WCLS2 lle mae angen ailosod neu arbenigedd pellach. Dylai amllder y gwiriadau hyn fod yn seiliedig yn llwyr ar farn broffesiynol yr ymarferydd gofal llygaid ar anghenion clinigol y claf, y math o lensys cyffwrdd a wisgir, y dull gwisgo a barn strwythuredig yr	Lle bo angen, mae lensys cyffwrdd yn cael eu harchebu a'u hanfonebu'n ganolog. Dylai amnewid lensys cyffwrdd fod yn seiliedig ar anghenion clinigol yr unigolyn. Yn fwyaf cyffredin mae hyn bob 3 neu 6 mis ar gyfer lensys cyffwrdd meddal, ac yn flynyddol ar gyfer lensys anhyblyg. Dylai pob claf dalu'r gyfradd bresennol yn y GIG. sef £57.00 am lens gyffwrdd oni bai ei fod wedi'i eithrio, yn unol â'r canllawiau cymhwysedd cenedlaethol. Rhaid i'r cleifion dalu am	I'w drafod mewn trafodaethau tair rhan rhwng GIG Cymru, Llywodraeth Cymru ac Optometreg Cymru	Nid oes angen offer ychwanegol (Atodiad 3).

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

ymarferydd ar y risg o ddigwyddiadau niweidiol.	doddiannau lensys cyffwrdd. Dylid derbyn taliad hefyd am lensys cyffwrdd os collir un, neu os oes angen un sbâr.		
---	--	--	--

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Lefel 2 (WCLS 2): Gwasanaeth Gosod mewn Gofal Sylfaenol, Gwasanaeth Ôl-ofal Arbenigol, Mireinio a Monitro Atgyfeirio Croesgysylltu'r Gornbilen

Lensys Cyffwrdd Arbenigol

<i>Atgyfeirio</i>	<i>Archebu Lensys Cyffwrdd</i>	<i>Taliadau Ymarferwyr</i>	<i>Offer</i>
Atgyfeirio o'r Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty i ofal sylfaenol neu o Wasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru. Atgyfeirio yn ôl i'r Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty yn ôl yr angen (Gweler enghraifft Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Ffigur 6-7). Efallai y bydd angen sawl apwyntiad i osod lens gyffwrdd yn llwyddiannus ar gyfer lensys cyffwrdd cymhleth arbenigol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffi gosod gofal sylfaenol a'r ffi ddilynol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer y rhan fwyaf o ffioedd gosod lensys cyffwrdd arbenigol preifat. Mae apwyntiadau ôl-ofal hefyd yn angenrheidiol	Nod y gwasanaeth hwn yw osgoi ymweliadau gofal eilaidd drwy ganiatáu i ymarferwyr WCLS2 benderfynu a yw claf yn gymwys i gael Taleb 12. Mae Taleb 12 i'w chyhoeddi gan ymarferwyr WCLS2 (Taleb 12 £57.00). Bydd angen dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn gan offthalmolegydd ymgynghorol. Dylid trafod archebu lensys rhan o gam gweithredu'r gwasanaeth hwn. Mae'n ofynnol i'r cleifion dalu am lensys cyffwrdd oni bai eu bod wedi'u heithrio yn unol â'r canllawiau. Mae'n ofynnol i'r cleifion hefyd dalu am doddiannau lensys cyffwrdd. Mae angen	I'w drafod mewn trafodaethau tair rhan rhwng GIG Cymru, Llywodraeth Cymru ac Optometreg Cymru	Bydd angen offer ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth hwn a disgwylir iddo gael ei ddarparu gan yr ymarferydd (Atodiad 3).

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

ar gyfnodau y cytunwyd arnynt yn glinigol i wirio a yw'r lens yn foddhaol gan y bydd cornbilen claf â ceratoconws yn mynd yn fwy serth yn raddol dros amser. Yn aml, mae angen gosodiad newydd yn flynyddol ar gyfer cleifion ceratoconig. Dylid crybwyll y gallai fod angen gweld rhai cleifion bob 3 mis, efallai y bydd angen gweld eraill yn llai aml.	ystyried a thrafod ymhellach y gost i'r claf am lensys a gollir neu a ddifrodir		
--	---	--	--

Mireinio Atgyfeirio Croesgysylltu'r Gornbilen

<i>Atgyfeirio</i>	<i>Taliadau</i>	<i>Offer</i>
Atgyfeiriad gan WCLS1 a WGOS1. Atgyfeirio i ofal eilaidd. Mae'n debygol y bydd angen o leiaf ddau apwyntiad ar gyfer croesgysylltu'r gornbilen, i benderfynu a yw claf yn addas ai peidio ac a oes dilyniant i'r cyflwr. Yna mae'r claf yn cael ei atgyfeirio i ofal eilaidd, yn ôl yr angen. Nifer disgwylidig y cleifion yw 770 (gweler isod).	I'w drafod mewn trafodaethau tair rhan rhwng GIG Cymru, Llywodraeth Cymru ac Optometreg Cymru	Unwaith eto, bydd angen offer ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth hwn (Atodiad 3). I'w ddarparu gan y practis/ymarferydd.

Gellir gweld nifer y cleifion presennol ar gyfer croesgysylltu'r gornbilen yn y tabl isod.

Bwrdd Iechyd	Nifer y cleifion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	*110

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	*110
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	*110
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	*110
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	41
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	*110
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	179
Cyfartaledd fesul bwrdd iechyd	110
Cyfanswm	770

Gwybodaeth a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (2022) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (2022).

*Dim

ffigur ar gael ac felly wedi'i gyfartaleddu.

Monitro Croesgysylltu'r Gornbilen

Atgyfeirio	Taliadau	Offer
Atgyfeirio o ofal eilaidd i WCLS2. Fel arfer, bydd angen apwyntiad ar gyfer monitro cleifion croesgysylltu'r gornbilen bob blwyddyn, weithiau bob 6 mis. Nifer disgwylledig y cleifion yw 770 (gweler uchod).	I'w drafod mewn trafodaethau tair rhan rhwng GIG Cymru, Llywodraeth Cymru ac Optometreg Cymru	Unwaith eto, bydd angen offer ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth hwn (Atodiad 3). I'w ddarparu gan y practis/ymarferydd.

Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Lefel 3 (WCLS3): Gwasanaeth Llygaid Arbenigol mewn Ysbyty

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

<i>Atgyfeirio</i>	<i>Taliadau</i>	<i>Offer</i>
Atgyfeirio i ofal eilaidd gan WGOS neu WCLS2. Bydd mwy o gapasiti ymarferwyr ar gael i weld cleifion mwy cymhleth. Ni fydd angen hyfforddiant ychwanegol, uwchlaw'r lefel bresennol o hyfforddiant, ar gyfer ymarferwyr arbenigol sy'n darparu'r gwasanaeth mewn gofal eilaidd.	Dim taliadau'n cael eu cymryd. O gyllideb y bwrdd iechyd.	Bydd offer ychwanegol yn ofynnol, a ddarperir gan y bwrdd iechyd (Atodiad 3).

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

Atodiad 5: Ystyriaethau Hyfforddi

Lefel	Hyfforddiant
Presennol	Mae gosod lensys cyffwrdd ac ôl-ofal, ar gyfer lensys meddal ac anhyblyg, yn rhan o'r cymwyseddau craidd ar gyfer pob optometrydd. Mae ymarferwyr lensys cyffwrdd arbenigol hefyd yn derbyn hyfforddiant mewnol mewn gofal eilaidd a phrofiad ymarferol. Mae'r ddau yn hanfodol i'r gwasanaeth lensys cyffwrdd arbenigol. Yn ogystal, gall ymarferwyr lensys cyffwrdd arbenigol hefyd dderbyn hyfforddiant gan wneuthurwyr sy'n cyflenwi lensys cyffwrdd arbenigol a gallant fynychu cyrsiau ychwanegol, fel y cwrs a ddarperir gan ymarferwyr lensys cyffwrdd arbenigol o Ysbyty Llygaid Moorfields ynghylch lensys arbenigol gan gynnwys lensys sgleral ac argraffiadau ociwlar.
Presennol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer ymarferwyr gofal a rennir	Defnyddiwyd hyfforddiant Ultravision ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r sgiliau angenrheidiol i optometryddion gofal sylfaenol / optegwyr lensys cyffwrdd sy'n angenrheidiol i gynnal ôl-ofal lensys cyffwrdd arbenigol ar gyfer gwisgwyr lensys cyffwrdd meddal gofal a rennir.
WCLS 1	Cynigir y gall pob ymarferydd ddarparu'r gwasanaeth hwn fel isafswm gofynnol o dan wasanaeth achrededig newydd ar gyfer Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae'r hyfforddiant hwn yn cyfateb i'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer WGOS2. Byddai'n briodol i AaGIC asesu unrhyw ofynion hyfforddi pan fydd manylion y cynnig wedi'u cwblhau.
WCLS 2	Hyfforddiant yn ôl yr angen ar gyfer WCLS 1 yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol. Bydd AaGIC yn asesu unrhyw ofynion hyfforddi pan fydd manylion y cynnig wedi'u cwblhau a gall ystyried lleoliadau mewn gofal eilaidd i ennill profiad o fewn clinigau lensys cyffwrdd arbenigol a phrofiad o weld achosion cornbilen sydd angen lensys cyffwrdd. Gellid ystyried bod lefel yr

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Optegol
Cymru
Welsh Optometric
Committee

	hyfforddiant hwn yn debyg neu'n cyfateb i'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer WGOS 4. Mae'n bwysig bod ymarferwyr hefyd yn cael eu hyfforddi gyda dealltwriaeth o ddeddfwriaeth a meini prawf cymhwysedd lensys cyffwrdd arbenigol.
WCLS 3	Fel yr uchod ar gyfer ymarferwyr lensys cyffwrdd arbenigol WCLS2 neu dystiolaeth o ddysgu blaenorol h.y. optometryddion ysbytai/optegydd lensys cyffwrdd sy'n gweithio mewn clinig lensys cyffwrdd arbenigol.

Atodiad 6: Opsiynau ar gyfer Caffael Lensys Cyffwrdd

Opsiwn 1: Practis i dderbyn taliad ac archebu lensys.	Cryfderau	- Rhwyddineb talu ac archebu. - Nid oes angen gweinyddu ychwanegol gan fyrddau iechyd. - Gallai fod yn fwy deniadol ar gyfer practisau.
	Gwendidau	- Gall rhai lensys fod yn ddrutach i'w harchebu a byddai hyn wedyn yn arwain at bractis o bosibl allan o boced ar gyfer y rhain. - O bosibl gallai arwain at lai o ddewis i gleifion gan y byddai ymarferwyr yn tueddu i archebu lensys sydd am bris cost rhatach.
Opsiwn 2: Caffael Canolog	Cryfderau	- Profiad blaenorol a llwyddiant gyda Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru – gallai fod yn seiliedig ar system fel hon. - Gallai arbedion maint leihau costau. - Gallai Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru hwyluso caffael. - Ni fydd cyfyngiad ar y math o lensys sy'n ofynnol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen llunio rhestr o'r lensys a ffefrir i leihau amrywiad a chost.
	Gwendidau	- Mae angen gweinyddu ychwanegol i drefnu hyn. - O bosibl yn llai deniadol i bractisau os na dderbynnir taliad am lensys cyffwrdd. - Gall fod yn broses fwy cymhleth ac yn fwy cymhleth i gael taliad gan y claf. Mae hyn i'w drefnu drwy'r bwrdd iechyd/ Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Opsiwn 3: Caffael y Bwrdd Iechyd:	Cryfderau	- Mae practis yn cymryd taliad am lensys, lensys yn cael eu harchebu gan wasanaeth lensys cyffwrdd gofal eilaidd, ac anfonebu practisau am daliad drwy Daleb. - Dim newid sylweddol o'r broses gaffael bresennol. - Nid oes angen cyfyngiad ar y math o lensys sy'n ofynnol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i fyrddau iechyd lunio rhestr o'r lensys a ffefrir i leihau amrywiad a chost.
	Gwendidau	- Rhywfaint o weinyddu ychwanegol. - O bosibl yn llai deniadol i bractisau os na dderbynnir taliad am lensys cyffwrdd. - Yn fwy cymhleth i gael taliad gan y claf.

Cyfeiriadau

al, A. B. (2019). *Appraisal of CL Services in Wales*. Caerdydd: Pwyllgor Optometrig Cymru.

BCUHB Contact Lens Department. (2024). Contact Lens Service Audit.

CL Specialty Optometrist. (2024, Ebrill).

CTMUHB HES Optom. (2024, Mai 1). Contact lens service at CTMUHB.

CTMUHB Optometrist. (2024, Mai 16). Contact Lens Service Update.

Daniel A. Godefrooij, R. G. (2016). Nationwide reduction in the number of corneal transplantations for keratoconus following the implementation of cross-linking. *Acta Ophthalmologica*, 675-678.

Godefrooij DA, d. W. (2017). *Age-specific Incidence and Prevalence of Keratoconus: A Nationwide Registration Study*. Adalwyd 09 2024, from 10.1016/j.ajo.2016.12.015. Epub 2016 Dec 28. PMID: 28039037

Llywodraeth Cymru (2021, Medi 01). *NWSSP NHS Wales*. Adalwyd o <https://nwssp.nhs.wales/ourservices/primary-care-services/primary-care-services-documents/ophthalmic-services-docs/letter-nhs-sight-test-fee-voucher-values-from-1-april-2021-incl-cet-claim-form/>



Llywodraeth Cymru. (2022, Tachwedd 8). *Cymru Iachach*. Adalwyd o https://www.llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol?_gl=1*108h4bm*_ga*MTA4MjUwMDkzOS4xNzYzOTc5MDkx*_ga_L1471V4N02*czE3NjU5OTE4NTQkbzYkZzAkDE3NjU5OTE4NTQkajYwJGwwJGgw

HES Optometrist ABUHB. (2024, Mai 16). Contact Lens Service Enquiry.

Menicon. (2024). Speciality Hospital Contact Lens Price List. Northampton.

Noel A. Brennan, Y. M. (2021). Efficacy in myopia control. *Progress in Retinal and Eye Research*, Cyfrol 83.

PTHB Optometric Advisor. (2024, Ebrill 22).

StatsCymru. (2022, Awst). *StatsCymru*. Cafwyd ym mis Mai, o Amcangyfrifon Poblogaeth yn ôl byrddau iechyd lleol a oed: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Health-Boards/populationestimates-by-lhb-age>

Prifysgol Caerdydd (2024, 09 18). *Anterior Segment - Clinical Examination and Management*. Adalwyd ar 09 2024, o Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Goleg Prifysgol Caerdydd: <https://www.cardiff.ac.uk/cy/optometry-vision-sciences/courses/postgraduate-taught/modules/opt027-anterior-segment-clinical-examination-and-management>

Prifysgol Caerdydd (2024, 09 18). *OPT040 - Lensys Cyffwrdd 1*. Adalwyd 09 2024, o Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg Prifysgol Caerdydd: <https://www.cardiff.ac.uk/cy/optometry-vision-sciences/courses/postgraduate-taught/modules/opt040-contact-lenses-1>

Prifysgol Caerdydd (2024, 09 18). *Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg*. Adalwyd 09 2024, o OPT026: Llawdriniaethau Cataractau a Phlygiannol: <https://www.cardiff.ac.uk/cy/optometry-vision-sciences/courses/postgraduate-taught/modules/opt026-cataract-and-refractive-surgery>

Cynnig Gwasanaeth Lensys Cyffwrdd Cymru Gyfan

Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru



Pwyllgor Optometrig Cymru (2023). Specialist Contact Lens Service Paper.
Caerdydd.